CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**
Dyddiad y cyfarfod:	**26 Medi 2022**
Teitl:	**Adroddiadau Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2021-2022**
Pwrpas yr adroddiad:	**I ystyried yr adroddiadau drafft**
Er:	**Penderfyniad**

1. ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR YMDDIRIEDOLWYR

1.1 O dan adran 162 o Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ymddiriedolwyr elusennau sydd wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau baratoi adroddiad blynyddol mewn perthynas â'u helusen a hynny ym mhob blwyddyn ariannol.

1.2 Yn hanesyddol nid yw'r Cyngor wedi ymgymryd â'r dasg hon. Fodd bynnag, i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn argymell y dylid gwneud hyn bob blwyddyn o hyn ymlaen ac felly mae adroddiadau drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-2022 wedi eu paratoi ar gyfer y pum elusen gofrestredig (gweler Atodiadau 1-5 ynghlwm) y mae'r Cyngor yn unig ymddiriedolwr ohonynt, sef:

- Neuadd Goffa Ceinewydd;
- Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd;
- Sefydliad Addysgol Coffa Coe/ *Coe Memorial Educational Foundation*;
- Cronfa Addysg Ganolraddol a Thechnegol Sir Aberteifi/ *Cardiganshire Intermediate and Technical Education Fund;* ac
- Elusen Richard James Thomas.

1.3 Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau ar eu gwefan nhw, os yw incwm elusen o dan £500,000 gellir llunio adroddiad syml a dim ond ei gyflwyno i'r Comisiwn os yw incwm yr elusen yn fwy na £25,000. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i'r elusen anfon copi i'r Comisiwn pe byddent yn digwydd gofyn amdano.

1.4 Yn achos y pum elusen a nodir uchod, nid oes gan yr un ohonynt incwm sy'n fwy na £25,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-2022 felly nid oes angen cyflwyno'r adroddiadau i'r Comisiwn.

1.5 Mae adran 17(5) o Ddeddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn datgan bod yn rhaid i ymddiriedolwyr elusen roi sylw i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus wrth ymarfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau y mae'r canllawiau'n berthnasol iddynt, a gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw yn yr adroddiad blynyddol. Mae canllawiau'r Comisiwn ar yr adroddiad blynyddol yn nodi, os nad yw pob ymddiriedolwr wedi darllen y canllawiau, y dylid datgan hynny. Felly byddwch yn nodi bod datganiad i'r perwyl hwnnw yn yr adroddiadau blynyddol drafft, yn yr adran *'Crynodeb yn*

amlinellu'r prif weithgareddau a wnaed er budd y cyhoedd (rhowch yn yr adran hon y datganiad statudol fod yr ymddiriedolwyr yn rhoi sylw i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus)'.

1.6 Yn unol â'r datganiad yn yr adroddiadau blynyddol drafft, mae canllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn - PB2 a PB3 - ynghlwm ar ffurf Atodiad 6 i holl Aelodau'r Pwyllgor eu darllen. Unwaith y bydd pob Aelod wedi'u darllen, bydd yr ymddiriedolwyr yn gallu datgan yn adroddiadau blynyddol y flwyddyn nesaf fod y canllawiau wedi'u darllen.

Argymhellion:

1. **Cymeradwyo fod swyddogion, ar ran yr ymddiriedolwyr, o hyn ymlaen yn llunio adroddiadau blynyddol drafft i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau i'w hystyried a'u cymeradwyo mewn perthynas ag unrhyw elusennau cofrestredig y mae'r Cyngor yn unig ymddiriedolwr ohonynt;**
2. **Cymeradwyo pum adroddiad blynyddol drafft yr ymddiriedolwyr a nodir yn Atodiadau 1-5 o'r adroddiad hwn, ac y bydd Cadeirydd y Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn llofnodi a dyddio copïau glân ohonynt ar ran ymddiriedolwr yr elusen;**
3. **penderfynu y bydd holl Aelodau'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau yn darllen dwy ddogfen gyfarwyddyd y Comisiwn Elusennau (PB2 a PB3) a nodir yn Atodiad 6 o'r adroddiad hwn a chadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor eu bod wedi darllen y canllawiau.**

Rheswm am y penderfyniad: **Sicrhau y cydymffurfir â gofynion Deddf Elusennau 2011**

Atodiadau:

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwr: Neuadd Goffa Ceinewydd 2021-2022
Atodiad 2 – Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwr: Llyfrgell ac Ystafell Ddarllen Ceinewydd 2021-2022
Atodiad 3 – Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwr: Sefydliad Addysgol Coffa Coe*l Coe Memorial Educational Foundation* 2021-2022
Atodiad 4 – Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwr: Cronfa Addysg Ganolraddol a Thechnegol Sir Aberteifi*/ Cardiganshire Intermediate and Technical Education Fund* 2021-2022
Atodiad 5 – Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwr: Elusen Richard James Thomas 2021-2022
Atodiad 6 – Canllawiau'r Comisiwn Elusennau - PB2 a PB3

Pennaeth y Gwasanaeth:	**Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu**
Swyddog Adrodd:	**Louise Harries – Cyfreithiwr**
Dyddiad:	**31/08/2022**